# Crynodeb Gweithredol o'r Ddogfen yn Gymraeg

## Crynodeb Gweithredol

### Cyfreitha

Cychwynnodd Cynllun Pensiwn Barnwyr sy’n Derbyn Ffi (FPJPS) ar 1 April 2017 yn dilyn penderfyniad ar Chwefror 2013 gan Yr Uchel Lys yn achos O'Brien v Ministry of Justice [2013] UKSC 6 fod barnwyr sy’n derbyn ffi am eu gwaith wedi cael eu trin yn llai ffafriol na barnwyr llawn amser ar gyflog gan nad ganddynt hawl i bensiwn. Cyfeiriwn at y dyfarniad hwn fel O’Brien 1. Ar hyn o bryd nid yw buddiannau dan FPJPS ond yn cronni, am waith barnwrol am ffi, ar neu ar ôl 7 Ebrill 2000, y dyddiad pryd y bu'n ofynnol ar y Deyrnas Unedig i droi'r Gyfarwyddeb Gwaith Rhan-amser (PTWD) yn gyfraith ddomestig.

Ym mis Tachwedd 2019, barnodd Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd yn achos O'Brien 1 (Achos C-432/17), gan gasglu y dylai gwaith rhan-amser a wnaed cyn dyddiad terfyn ar 7 Ebrill 2017 droi'r Gyfarwyddeb Gwaith Rhan-amser (PTWD) yn gyfraith, ac y dylid ystyried hynny wrth gyfrifo pensiwn ymddeol. Cyfeiriwn at y dyfarniad hwn fel O'Brien 2.

Ym mis Rhagfyr 2019 yn yr achosion cysylltiedig Miller and others v Ministry of Justice [2019] penderfynwyd bod y terfyn amser o dri mis a osodir gan Reoliadau Gweithwyr Rhan Amser (Atal Triniaeth Lai Ffafriol) 2000 ar gyfer hawliadau mewn perthynas ag O'Brien 1 ac O'Brien 2 yn rhedeg o ddyddiad ymddeoliad yr hawlydd o'i holl swyddi, ac nid o ddiwedd pob apwyntiad a dalwyd â ffi. Cyfeiriwn at y dyfarniad hwn fel Miller.

### Y datrysiad

Mae angen gwneud newidiadau i’r FPJPS i gywiro’r sefyllfa ar gyfer O'Brien 2 a Miller fel bod, lle mae gwasanaeth barnwrol yn parhau hyd at 7 Ebrill 2017, aelodaeth ar gael mewn perthynas â gwaith barnwrol cymwys ar gyfer cyfnodau cyn y dyddiad hwnnw ac fel bod modd cyfrif gwasanaeth cymwys a bod buddiannau pensiwn mewn perthynas â'r gwasanaeth hwnnw’n cael eu talu.

Rydym hefyd angen newid meini prawf aelodaeth FPJPS i adlewyrchu dyfarniad Miller.

Gan fod FPJPS wedi ei gynllunio i adlewyrchu cyn belled â phosib y cynllun ar gyfer barnwyr ar gyflog a sefydlwyd dan Ddeddf Pensiynau ac Ymddeoliadau Barnwrol 1993 (JUPRA), gellir ymestyn darpariaeth gyfredol FPJPS i gynnwys yr holl amser y gallai barnwr perthnasol ar gyflog fod wedi ymaelodi â JUPRA, hynny yw, o 31 Mawrth 1995 ymlaen. Mae hyn yn eithaf hawdd i'w wneud.

Ar gyfer gwasanaeth cyn 31 Mawrth 1995, rydym yn cynnig diwygio FPJPS i ddarparu hawl budd pensiwn pro-rata yn seiliedig ar y buddiannau oedd ar gael i farnwyr ar gyflog yn ystod yr amser dan sylw.

Lle’r oedd barnwr ar gyflog yn aelod, naill ai'n uniongyrchol neu drwy gydweddiad, o gynllun gwasanaeth sifil rydym yn cynnig rhoi credyd gwasanaeth yn FPJPS i ddeiliaid swyddi barnwrol am y cyfnod rhwng eu hapwyntiad a phryd y cafodd y barnwr ar gyflog yr hawl i aelodaeth o gynllun pensiwn barnwrol.

Rydym hefyd yn ymgynghori ar gynigion i ddiweddaru'r rhestr o swyddi barnwrol ar yr atodlen o farnwyr ar gyflog yn Rheoliadau FPJPS.

Mae ein cynigion yn seiliedig ar y sefyllfa gyfredol yn O'Brien, Miller ac chyfreithiadau eraill perthnasol, ond gallant newid yn dibynnu ar gyfreithiadau sydd ar y gweill.

## Cynigion arfaethedig eraill ar bolisi pensiwn barnwrol

Rydym yn paratoi i gyhoeddi ymgynghoriadau ffurfiol ar nifer o faterion eraill gydag oblygiadau i drefniadau pensiynau barnwrol. Yr amcan yw eu cyhoeddi'r ymgynghoriadau canlynol yn fuan:

- **Datrysiad McCloud** – Cynigion i gywiro'r anffafriaeth a ddaeth i'r amlwg yng nghyfreithiad McCloud.
- **Diwygio pellach o'r cynllun pensiwn barnwrol** – cynigion ar ddiwygio'r cynllun pensiwn barnwrol i fynd i'r afael â recriwtio barnwrol a materion cadw.
- **Oed ymddeol gorfodol** – opsiynau ynghylch newidiadau i'r oed ymddeol gorfodol o swyddi barnwrol.

## Yr amserlen a’r camau nesaf

I roi cyfle i bawb a effeithir wneud sylw ar ein cynigion i newid y FPJPS bydd yr ymgynghoriad ar agor am 12 wythnos.

Ar ôl i’r ymgynghoriad ddod i ben, byddwn yn ystyried pob ymateb ac yna'n cyhoeddi ein hymateb ffurfiol ynghyd â'n cynllun ar sut i fwrw 'mlaen â'r newidiadau angenrheidiol i Reoliadau FPJPS gan gynnwys yr angen posib i ymgynghori'n bellach ar y rheoliadau eu hunain. Bydd y cyfrwng statudol angenrheidiol yn gaeth i'r drefn ddatrys cadarnhaol a bydd yn rhaid ei osod o flaen Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi cyn y gallai ddod i rym yn 2022. Rydym yn credu y byddai'r rheoliadau diwygiedig yn dod i rym yn 2022.

Pan fydd y cynllun diwygiedig yn cychwyn bydd yr adran yn cysylltu â phob barnwr a delir â ffi ac sy'n gymwys i hawlio pensiwn diwygiedig. Yn y cyfamser gwahoddir barnwyr a delir â ffi sy'n credu eu bod mewn lle i hawlio i gysylltu â Thîm Hawliadau Barnwrol yr adran (os nad ydynt wedi gwneud yn barod) ar:  JudicialClaimsTeam@justice.gov.uk gan roi, ble mae ar gael, cofnod o'u gwasanaeth a dalwyd â ffi cyn 7 Ebrill 2000[1].

## Trefniant interim ar gyfer ceisiadau a thaliadau yn lle buddiannau pensiwn

Yn sgil O'Brien 2 a Miller mae oddeutu 4,600 o farnwyr sydd â cheisiadau newydd, neu gynyddol, i fod yn gymwys i ymuno â chynllun pensiwn talu â ffi. Mae'r Tîm Hawliadau Barnwrol yn y broses o gytuno ar gofnod gwasanaeth gyda'r barnwyr hyn.  Fel mesur interim, cyn bod y ein newidiadau deddfwriaethol i FPJPS ddod i rym, rydym wedi dechrau rhyddhau taliadau yn lle taliad pensiwn i farnwyr sydd yn y garfan hon wedi ymddeol, yn cynnwys ôl-daliadau lwmp-swm ble mae hynny'n briodol. Rydym wedi bod yn diweddaru'r Tribiwnlys Cyflogaeth ynghylch ein gwaith ar hyn.

[1] Mae gwybodaeth ar y mathau o gofnodion ychwanegol y gellir eu cyflwyno ar gael yn y ddogfen: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/819415/moj-statement-in-fee-paid-judicial-litigation-jul-2019.pdf